
CERAMIC

SERIES



# alison britton

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH
ARTS centre

ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

November 1996
number 80

What Alison Britton joins together Dr. Frankenstein will bless. He understands her operations, bolting bits together, stitching parts. Knows her piecemeal manufacture and its purpose, God bereft.

Every single piece that Alison makes is multiple, a complex arrangement of parts. Combine, collage, serial composition that says "The old sweet song of unity is dead."

The factions may not be united but the entrenched parties of Making and Painting enjoy parity of esteem. And Alison will bring them to provisional accommodation, power sharing, partial peace.

She rolls her anti plastic plates of clay, and cuts creases, folds, pleats, clefts, curves and plane faces. The wonder is she keeps the grand conception. Building by fits and starts could lead to pettifogging. And forgetting God's preference fall into the trap of nitpicking, splitting finer and finer hairs. But the big guns are not forgotten and Alison constructs buckets, drums, powerful containers. Fit vessels for the catastrophe to come.

With the minor works of pottery she has done wonders. Spout, lip and handle have with marvellous invention become the beak, hook, claw and broken noses that we see. I like the wit and love the barefaced cheek that's turned the added extras into stars.

Tart intelligence thrives on opposition. The clash and clang of free exchange. Alison flings into collision masses. Causes volumes to crash. And marshals to cacophonous resolution warring forces, careless of perfection's dainty ways.

Her bifocal vision reveals itself in pairs, and when Alison gathers two together the purpose is argument. Resist her invitation to a wedding, put just impediment in her way. Disjunction is her forte, disparity her game. Falstaff to poor Francis. Pink lady to Mr Punch. She'll have us all in stitches, sending Stan and Ollie down the aisle. Slapstick marriage is amusing but seldom heaven blessed.

She does it for fun, of course. For the pleasure of invention and surprise. She can always turn the tables, upset expectation's applecart. But innovation fails to break her engagement to tradition. Her long record of dissent and disputation can't disinherit this awkward daughter of the house of wares.


The sturdy forms of dish, bowl, jug and vase absorb her rude attentions and afford a theatre for debate. On stage she stretches conventions and pulls the commonplace apart. Breaks plates and throws pots from the kitchen but finds the flying fragments on the premises.

Captain Britton went to fight for freedom, earned her medals in the field banging heads together in china's civil wars. Her motley army is currently stationed in Wales where choice specimens can be seen in glass houses.

I salute our gallant soldier, and wish her all the best. A modern woman in a modern world who wouldn't take the valium.

**Brian Illsley**
7th October 1996

**Yellow Pot** 1991 19.5 x 57 x 23 cms photo *ffoto* David Cripps




**Pot with Pink Interior** 1991 28 cms

*Supported by the Craft Department, Arts Council of Wales*

© Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre

CYFRES ●
GERAMEG



# alison britton

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH
CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH ARTS centre

Tachwedd 1996
rhif 80

Byddai Dr Frankenstein ond yn rhy barod i roi sêl ei fendith ar yr hyn y bydd Alison Britton yn rhoi at ei gilydd. Bydda'r hen foi'n deall iawn sut y bydd Alison yn mynd ati, yn bolltio darnau wrth ei gilydd, yn pwytho fan hyn a fan draw. Byddai'n nabod y ffordd y bydd hi'n gweithio gyda gwahanol fân gydrannau, ac fe w^yr ei phwrpas; amddifadaeth o Dduw.

Amlgyfres yw pob darn unigol a wneir gan Alison, trefniant cymhleth o ddarnau. Cyfuniadau, collage, cyfansoddiad cyfresol - y neges yw bod "hen alawon peraidd Undod wedi marw."

Hwyrach nad yw'r gwahanol garfanau'n unfryd unfarn, ond bydd dwy agwedd anghymodlon Gwneud a Pheintio yn cael pob parch. Bydd Alison yn llwyddo i greu rhyw faint o gymod gan adael iddynt rannu grym.

Bydd hi'n rholio ei phlatiau gwrth-blastig o glai, gan dorri, plygu, crychu, naddu, troi a llyfnu wynebau. Ei champ ryfeddol yw cadw'r cysyniad mawr. Gallai adeiladu fesul tipyn bob hyn a hyn arwain at hollti'r blew'n rhy fân, gan anghofio'r hyn sy'n well gan Dduw. Ond fydd hi ddim yn anghofio am y gynnau mawr, a bydd Alison hefyd yn gwneud bwcedi, drymiau a chynwysyddion cryf. Llestri addas ar gyfer y trychineb a ddaw.

Mae'r mân ddarnau crochenwaith yn rhyfeddol. Gyda dyfeisgarwch anhygoel y mae pigyn, ymyl a dolen wedi dod yn gylfin, bachyn, crafangc a thrwynau toredig. Dwi wrth fy modd hefo'i hiwmor, ac yn dwlu ar yr agwedd ddidderbyn-wyneb sydd wedi troi'r ychwanegolion yn sêr.

Bydd deallusrwydd di-lol yn ffynnu ar wyrthgyferbyniad. Gwrthdaro go iawn. Bydd Alison yn bwrw at ei gilydd mas, achosion, foliwm; gan ddwyn y lluoedd anghymhathus yma at ei gilydd i ryw grescendo aflafar heb boeni am ffyrdd mursen perffeithrwydd.

Bydd ei gweledigaeth ddeuffocal yn ei hamlygu ei hun mewn parau, a phan fydd Alison yn casglu dau o rywbeth at ei gilydd, y pwrpas yw dadl. Gwrthod ei gwahoddiad i briodas, rhoi rhwystrau yn ei ffordd. Datgysylltu yw'r gamp, creu gwahaniaethau yw'r gêm. Falstaff i Francis druan. Y ledi binc i Mistar Pwnsh. Bydd hi'n peri i ni chwerthin o'i hochor hi wrth yrru Stan ac Ollie at yr allor. Peth doniol yw priodas slapstic, ond yn anaml y bydd yn cael ei bendithio o fry.


Bydd hi'n ei wneud o ran hwyl, wrth gwrs. Er mwyn y pleser o ddyfeisio a pheri syndod. Gall bob amser droi'r byrddau, chwalu pob disgwyliad. Ond, methu a wna newydd-deb i dorri ei hymrwymiad â'r traddodiadol. Ni allai ei record hir o anghydffurfiaeth a dadlau ddietifeddu merch anystywallt stad y llestri.

Bydd ffurfiau cadarn powlenni, dysglau, siwgiau a ffiolau'n cymryd ei sylw amrwd gan gynnig llwyfan ar gyfer dadlau. Ar y llwyfan yma, bydd yn ymestyn confensiwn ac yn tynnu'r hyn sy'n gyffredin wrth ei gilydd. Bydd hi'n torri platiau ac yn lluchio potiau o'r gegin, ond bydd yn cael hyd i'r deilchion sydd wedi hedfan i bob man wedyn.

Aeth Capten Britton i ymladd dros ryddid, gan ennill ei medalau ar faes y gad drwy fwrw pennau wrth ei gilydd yn rhyfel cartref crochenwaith. Mae ei lluoedd rhacsiog yng Nghymru ar hyn o bryd, lle y gellir gweld rhai o'r sbesimenau gorau mewn tai gwydr.

Hawddamor, filwr dewr. Dymuniadau gorau i ti. Dyma ddynes gyfoes mewn byd cyfoes na fyddai byth yn meddwl cymryd faliwm.

**Brian Illsley**
7 Hydref 1996



**Turquoise Pot with Red Lines** 1991 37cms

© Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre